**Hannah Blythyn AC/AM**
**Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**Deputy Minister for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref HB/00175/20

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd, Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
Government.Committee.Business@gov.wales

1 Ebrill 2020

Annwyl Gadeirydd,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 9 Mawrth ar ran Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru St Aidan's ynghylch y defnydd o boteli llaeth plastig mewn ysgolion. Gofynnwyd i mi eich ateb gan fy mod yn gyfrifol am wastraff ac ailgylchu.

Rwy'n croesawu'r ffaith bod gan bobl ifanc ddiddordeb yn y deunyddiau rydym yn eu defnyddio a'r modd y gallwn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio am gyfnod mor hir â phosibl a hefyd yn falch eu bod yn barod i'n herio. Rydym wrthi'n ymgynghori ynghylch ein strategaeth newydd ar economi gylchol '*Mwy nag Ailgylchu'* sy'n amlinellu ein nod o sefydlu economi gylchol yng Nghymru, lle y caiff gwastraff ei osgoi a lle y caiff adnoddau eu defnyddio am gyfnod mor hir â phosibl. Mae gwahanol ddogfennau ar gael ar ein gwefan gan gynnwys fersiwn hawdd ei darllen a chyflwyniad y gallwch ei lawrlwytho.

Rydym wedi bod yn siarad â phlant a phobl ifanc o bob rhan o Gymru fel rhan o'r ymgynghoriad ac mae'r defnydd o blastig wedi bod yn thema bwysig sydd wedi cael ei chodi ganddynt.

Un o brif gamau gweithredu'r strategaeth yw lleihau'n raddol y defnydd o blastig untro ac rydym hefyd yn awyddus i sicrhau mai Cymru fydd y wlad gyntaf i beidio ag anfon unrhyw blasting i'w dirlenwi. Yn dilyn ymgynghoriad y llynedd rydym hefyd yn bwrw ymlaen â diwygiadau blaengar a fydd yn newid y modd yr ydym yn defnyddio, casglu ac ailddefnyddio plastig drwy gyflwyno Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer pecynnu, Cynllun Dychwelyd Ernes ar gyfer cynhwysyddion diodydd a chyflwyno gwaharddiadau neu gyfyngiadau er mwyn lleihau'n raddol y defnydd o blasting diangen, untro sy'n cael ei daflu'n rheolaidd fel sbwriel.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Hannah.Blythyn@llyw.cymru
Correspondence.Hannah.Blythyn@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

O safbwynt cyflwyno newid o ran y defnydd o boteli llaeth plastig mewn ysgolion, rydym wedi cydweithio â Wrap Cymru ar astudiaeth ymchwil sy'n ystyried y mater hwn yn benodol. Gallwch weld manylion y gwaith yma. Gallai Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru St Aidan's hefyd ddymuno tynnu sylw Cyngor Sir Penfro at eu pryderon gan mai nhw sy'n gyfrifol am benderfynu sut y caiff gwasanaethau eu cyflenwi o fewn eu hardal.

Yn gywir,



**Hannah Blythyn AC/AM**
Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol
Deputy Minister for Housing and Local Government